

Addysg Heddwch wedi'i mapio i Gwricwlwm Cymru

Mai 2022

Mae addysg heddwch yn cefnogi addysg a datblygiad pobl ifanc fel dinasyddion lleol a byd-eang yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r ddogfen hon yn mapio addysg heddwch i'r Datganiadau Beth Sy'n Bwysig, gyda rhywfaint o ddolenni fel adnoddau a mentrau defnyddiol. Mae wedi'i gynllunio fel canllaw hawdd i athrawon ac ysgolion, wrth iddynt ddatblygu a chyflwyno eu cwricwla newydd.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein papur polisi 'Addysg Heddwch yng Nghwricwlwm Cymru.



"Mae heddwch yn rhan fawr o'n bywydau, ac efallai nad oeddem yn sylweddoli hynny. Nawr, rwy'n deall mwy am y newyddion.... Fel Llysgennad Heddwch, dysgais am Hawliau'r Plentyn, a daeth Comisiynydd Plant Cymru i'n hysgol. Mae ein hysgol wedi'i gefeillio ag ysgol yn Kathmandu, Nepal, ac arweiniodd y Llysgennad Heddwch sesiwn am hynny i'r ysgolion cynradd a fydd yn dod yma."

Delyn, blwyddyn 8, Ysgol Dyffryn Aman

MDAPHAU

Y Celfyddydau Mynegiannol

DATGANIAD BETH SY'N BWYSIG

Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth artistig, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.

Y Celfyddydau Mynegiannol

Creu sgiliau a gwybodaeth gyfunol, gan ddefnyddio'r synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg.

CYSYLLTIADAU ADDYSG HEDDWCH

Gall addysg heddwch roi cyfleoedd i ddysgwyr archwilio eu treftadaeth ddiwylliannol eu hunain a threftadaeth ddiwylliannol pobl, lleoedd ac amseroedd eraill drwy'r celfyddydau mynegiannol.

Gall dysgwyr archwilio sut y gellir defnyddio'r celfyddydau mynegiannol i gwestiynu a herio safbwyntiau hefyd, a bod yn rym dros newid personol a chymdeithasol. Mae dysgwyr yn cael cyfleoedd i fod yn arloesol a chreu gwaith unigol, a meithrin gwydnwch a hyblygrwydd i oresgyn heriau. Gall ymgysylltu dysgwyr â'r broses creadigol eu galluogi i drawsnewid eu syniadau'n ddiogel ac yn foeseogol i waith artistig.

ADNODDAU

[Gwobrau Heddychwyrfanc](#)

['My creativity book, make your own concertina book and collage – expressive arts masterclass'](#) (Saesneg yn unig).

Beth ydy addysg heddwch?

Mae addysg heddwch o: "... bwysigrwydd mawr i genhadaeth UNESCO a'r Cenhedloedd Unedig" Koichiro Matsuura, cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol UNESCO

Mae Ian Harris a John Synott wedi disgrifio addysg heddwch fel cyfres o "brofiadau addysgu" sy'n ennyn y canlynol ym mhobol:

- eu hawydd am heddwch,
- dewisiadau amgen sydd ddim yn dreisgar ar gyfer rheoli gwrthdaro, a
- sgiliau ar gyfer dadansoddi'n feirniadol y trefniadau strwythurol sy'n cynhyrchu ac yn cyfreithloni anghyfiawnder ac anghydraddoldeb.

Mae gweithgareddau addysg heddwch yn hyrwyddo'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sy'n helpu pobl naill ai i atal gwrthdaro, datrys gwrthdaro'n heddychlon, neu greu amodau cymdeithasol sy'n ffafriol i heddwch.

Mae rhaglenni addysg heddwch yn mynd i'r afael ag ystod eang o themâu, gan gynnwys cyfathrebu effeithiol, technegau datrys gwrthdaro, democratiaeth, cydraddoldeb rhywiol, hawliau dynol, cyfrifoldeb amgylcheddol, goddefgarwch amrywiaeth a dealltwriaeth ryngwladol. Yn rhan annatod o addysg heddwch, mae datblygu meddwl beirniadol, datrys problemau creadigol, empathi, cydweithredu, cyfranogiad gweithredol a myfyrio.

Yng ngeiriau Cora Weiss, Llywydd Apêl Heddwch yr Hâg: 'Mae pobl fel arfer yn dweud, gwydych, pan rydych yn dweud wrthynt eich bod chi'n gweithio ym maes addysg heddwch, ond dwi'm amau'n fawr eu bod yn gwybod beth mae'n ei olygu mewn gwirionedd.' Gan nad oes llawer o bobl yn deall beth ydy addysg heddwch, mae'n gallu bod yn anodd i addysgwyr a llunwyr polisi weld lle mae'n ffitio yn y cwricwlwm neu mewn rhaglenni dysgu.

Yn fras, gall addysg heddwch gynnwys unrhyw un o'r elfennau canlynol:

- Heddwch personol – yn amlwg mewn arferion fel ymwybyddiaeth ofalgar sy'n hyrwyddo iechyd meddwl a lles cadarnhaol;
- Heddwch rhyngpersonol – gan gynnwys dulliau fel meithrin perthynas, datrys gwrthdaro a chyfyngu – hefyd dysgu am achosion rhagfarn, stereoteipio a gwrthdaro a sut y gellir eu goresgyn;
- Addysg am heddwch a chreu heddwch. Gallai hyn gynnwys dysgu am dreftadaeth heddwch eich hun - sut mae pobl wedi gweithio dros heddwch yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn y gorffennol a heddiw; ac
- Addysg heddwch: cefnogi pobl ifanc i ennill yr wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau i ddeall materion cyfredol, i greu heddwch ac i weithredu dros heddwch, cyfiawnder a hawliau dynol.

Addysg Heddwch wedi'i mapio i Gwricwlwm Cymru

MDAPHAU

DATGANIAD BETH SY'N BWYSIG

Iechyd a Lles

Mae datblygu iechyd a lles corfforol yn arwain at fanteision gydol oes.

Iechyd a Lles

Mae'r ffordd rydym yn prosesu ac yn ymateb i'n profiadau yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.

Iechyd a Lles

Mae ein penderfyniadau'n effeithio ar ansawdd ein bywydau a bywydau pobl eraill.

Iechyd a Lles

Mae'r ffordd rydym yn ymgysylltu â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydym ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.

Iechyd a Lles

Mae perthnasoedd iach yn bwysig dros ben i'n lles.

CYSYLLTIADAU ADDYSG HEDDWCH

Mae dysgwyr yn datblygu ymddygiadau positif a gwybodus, sy'n eu hannog i ofalu a pharchu nhw eu hunain ac eraill. Mae'r ymddygiadau hyn yn cefnogi ymdeimlad dysgwyr o hunanwerth, eu hwyliau cyffredinol a'u lefelau egni.

Mae addysg heddwch yn datblygu ymwybyddiaeth o deimladau ac emosiynau fel sail ar gyfer empathi. Mae dysgwyr yn cael eu cefnogi i ddatblygu strategaethau sy'n eu helpu i reoli eu hemosiynau, gan gyfrannu at iechyd meddwl da a lles emosiynol. Drwy ddysgu sut i gyfleu eu teimladau, mae dysgwyr mewn sefyllfa well i greu diwylliant lle mae siarad am iechyd meddwl a lles emosiynol yn cael ei normaleiddio.

Mae dysgwyr yn datblygu'r sgiliau meddwl yn feirniadol sydd eu hangen i ystyried eu penderfyniadau o ran y goblygiadau posibl, gan gynnwys risgiau, iddyn nhw eu hunain ac eraill. Maen nhw'n cael cyfleoedd i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar eu pen eu hunain a gyda'i gilydd.

Mae addysg heddwch yn gallu helpu dysgwyr i ddeall rôl bwysig rheolau, normau cymdeithasol, agweddau a gwerthoedd ar eu bywydau, a sut mae'r rhain yn effeithio ar eu hunaniaeth, eu gwerthoedd, eu hymddygiad a'u hiechyd a'u lles.

Mae addysg heddwch yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i ffurfio, meithrin a chynnal perthnasoedd iach. Mae'n cefnogi dysgwyr i gydnabod pan nad yw perthnasoedd yn iach hefyd, ac i fod yn ymwybodol o sut i gadw'n ddiogel a cheisio cymorth iddyn nhw eu hunain ac eraill.

ADNODDAU

Y rhaglen 'Delio â Gwrthdaro' Cyswllt centre@wcia.org.uk

[Storiâu lloches yng Nghymru – Dysgu Byd-Eang Cymru](#)

[Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth - Oxfam](#)

[Sefyll dros eich credoau - WCIA](#)

[Cardiau meddwl: Ydy hi'n iawn i rywun wneud hyn i chi?](#)

Ysgolion Heddwch yng Nghymru

Yng Nghymru, mae'r Cynllun Ysgolion Heddwch, sydd yn cael ei redeg gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru, yn cefnogi ysgolion i ddatblygu dull cyfannol, trwy ymgorffori heddwch yn eu hethos a'i ddatblygu fel thema drawsgwricwlaidd. Mae pwyslais ar ddatblygu sgiliau fel meddwl yn feirniadol, creadigrwydd a datrys gwrthdaro, yn ogystal ag annog pobl ifanc i ddysgu am drefnadaeth heddwch Cymru a gweithredu ar faterion cyfoes fel dinasyddion moesegol, gwybodus. Mae llais y disgybl yn ganolog i'r cynllun.

Mae'r cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer ysgolion y gallant ei addasu i'w hanghenion a'u hamgylchiadau, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o ddulliau, fel Ysgolion sy'n Parchu Hawliau, prosiectau Ewropeaidd a rhyngwladol, ac Athroniaeth i Blant. Mae ysgolion yn datblygu Cynllun Gweithredu, a gallant ennill statws Ysgol Heddwch ar dair lefel.

"Mae'r ysgol gyfan yn fwy hapus, yn fwy goddefgar ac yn fwy parchus" o ganlyniad i ddod yn Ysgol Heddwch." *Dirprwy Bennaeth mewn Ysgol Heddwch*



Addysg Heddwch wedi'i mapio i Gwricwlwm Cymru

MDAPHAU	DATGANIAD BETH SY'N BWYSIG	CYSYLLTIADAU ADDYSG HEDDWCH	ADNODDAU
Y Dyniaethau	Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, a'i orffennol, presennol a'i ddyfodol.	Mae addysg heddwch yn annog ymholi a darganfod, ac yn ymgysylltu dysgwyr i feddwl yn feirniadol a myfyrio ar dystiolaeth. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i gael dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i'r dyniaethau, a'u cymhwyso mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Yna, gallant ddod i gasgliadau gwybodus, tra'n deall mai dim ond yn rhannol neu'n amhendant mae rhai casgliadau'n gallu bod, ac yn agored i ddehongliadau gwahanol.	Caethwasiaeth a Chymru: Y gorffennol a'r presennol – Dysgu Byd-eang Cymru
Y Dyniaethau	Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, ac yn cael eu gweld, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.	Drwy addysg heddwch, bydd dysgwyr yn datblygu hunanymwybyddiaeth, gan eu galluogi i ffurfio eu safbwyntiau gwybodus eu hunain a chydabod safbwyntiau pobl eraill. Mae'n eu helpu i ddeall sut y gall gwahanol safbwyntiau a ffactorau byd-eang ddylanwadu ar eu canfyddiadau a'u dehongliadau eu hunain ac eraill.	Gyrfa Cymru - Hunan ymwybyddiaeth
Y Dyniaethau	Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, ac yn cael ei ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.	Mae addysg heddwch yn helpu dysgwyr i ddeall sut mae gweithredoedd dynol (gan gynnwys gwrthdaro) yn y gorffennol a'r presennol yn effeithio ar ryngberthnasoedd rhwng y byd naturiol a phobl, ac i fod yn ymwybodol o sut mae effaith y gweithredoedd hynny yn dylanwadu ar gynaliadwyedd ein byd yn y dyfodol.	Cerdded y Daith Gerdded Fyd-eang: pecyn i gefnogi dysgu am Nod Datblygu Cynaliadwy 16 - WCIA
Y Dyniaethau	Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac yn cael eu llunio gan weithredoedd a chredoau dynol.	Mae dysgwyr yn dod i werthfawrogi eu hanes a'u treftadaeth eu hunain, ac yn cael eu hannog hefyd i ddatblygu dealltwriaeth oddefgar ac empathig o'r credoau, y gwerthoedd, y traddodiadau a'r foesege amrywiol sy'n sail i gymdeithas ddynol, ac sy'n ei siapio.	Ymgyrchu dros Newid yn Ddi-drais.Cyswllt centre@wcia.org.uk
Y Dyniaethau	Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r ddynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesegol.	Mae addysg heddwch yn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion Cymru a'r byd rhyng-gysylltiedig ehangach, ac o'r pwysigrwydd o greu dyfodol cyfiawn a chynaliadwy iddyn nhw eu hunain a'u cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Gall arwain at weithredu cymdeithasol gwybodus ac ymroddedig.	Creu Newid er mwyn Heddwch - WCIA
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n cwmpas.	Mae dysgwyr yn datblygu'r gallu i wrando'n effeithiol, gan ddatblygu dealltwriaeth, empathi a'r gallu i ymateb a chyfyngu'n effeithiol.	Y rhaglen 'Delio â Gwrthdaro' Cyswllt: centre@wcia.org.uk
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.	Mae addysg heddwch yn cefnogi dysgwyr i gyfathrebu'n glir, yn effeithiol ac yn barchus wrth ryngweithio ag eraill, ac wrth archwilio syniadau, mynegi safbwyntiau ac adeiladu perthnasoedd	Sut i Ddadlau - WCIA

YNGHYLCH WCIA

Mae Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) yn elusen gofrestrdig sy'n ceisio ysbrydoli pobl i ddysgu am faterion byd-eang a gweithredu arnynt, fel y gall pawb yng Nghymru gyfrannu at greu byd tecach a mwy heddychlon.

Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy gyflwyno rhaglen ddysgu fyd-eang gyffrous ac arloesol; ysbrydoli cymunedau a sefydliadau ar draws Cymru i gymryd camau byd-eang; ac adeiladu partneriaethau byd-eang sy'n cysylltu Cymru a'r byd.

Mae'r holl raglenni addysg sydd yn cael eu datblygu gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn cael eu treialu yn defnyddio dull dysgu gweithredol, lle rydym yn archwilio anghenion dysgwyr ac athrawon, yn dysgu o gyflwyno ac adborth, ac yn addasu gweithgareddau a deunyddiau yn ôl yr angen.

WCIA.ORG.UK
@WCIA_WALES
CENTRE@WCIA.ORG.UK



Addysg Heddwch wedi'i mapio i Gwricwlwm Cymru

MDAPHAU

DATGANIAD BETH SY'N BWYSIG

Mathemateg a Thechnoleg

Mae ystadegau'n cynrychioli data, modelau tebygolrwydd, cyfle, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomena.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw, sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

CYSYLLTIADAU ADDYSG HEDDWCH

Mae addysg heddwch yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â data a chynrychioli gwybodaeth yn effeithiol, gan ddatblygu sgiliau meddwl yn feirniadol a dadansoddi, sy'n hanfodol i wneud penderfyniadau moesegol a gwybodus.

Mae dysgwyr yn cael eu hannog i ofyn cwestiynau am y byd o'u cwmpas, ac i seilio eu barn a'u dewisiadau ar ymchwil drylwyr a chadarn. Maen nhw hefyd yn dysgu ystyried effeithiau eu gweithredoedd a'u dewisiadau fel dinasyddion moesegol, gwybodus o Gymru a'r byd.

Mae dysgwyr yn cael eu hannog i ofyn cwestiynau am y byd o'u cwmpas ac i seilio eu barn a'u dewisiadau ar ymchwil drylwyr a chadarn. Maen nhw hefyd yn dysgu ystyried effeithiau eu gweithredoedd a'u dewisiadau fel dinasyddion moesegol, gwybodus o Gymru a'r byd.

ADNODDAU

[Dod â data'n fyw \(CA3-4\) - Oxfam](#)

[Newyddion ffug a llythrennedd yn y cyfryngau – Britannica Digital Learning](#)

[Urdd, WCIA a Climate Cymru Pecyn Addysg Argyfwng Hinsawdd](#)

Pa wahaniaeth mae addysg heddwch yn ei wneud?

Gan fod maes addysg heddwch yn faes eang, mae canlyniadau'n amrywio yn ôl y dull sy'n cael ei werthuso. Fodd bynnag, mae nifer o astudiaethau yn y DU yn cyfeirio at ganlyniadau cadarnhaol. Wrth adrodd ar eu gwaith yn 2020, dywedodd RJ Working, sefydliad sy'n cefnogi ysgolion yng Nghernyw i gyflwyno a datblygu Dulliau Cyfiawnder Adferol, bod 100% o'r 125 o bobl ifanc a hyfforddwyd yn fanwl yn teimlo'n fwy hyderus ar ôl yr hyfforddiant, bod ganddynt well dealltwriaeth o ragfarn, a gwell ffyrdd o weithio gyda gwrthdaro. Dywedodd un aelod o staff: "Mae pob un o'r myfyrwyr wedi gweld ei fod yn ysgogi'r meddwl ac rwy'n credu ar y cyfan, ei fod wedi newid eu persbectif eu hunain ar sut maen nhw'n delio â sefyllfaoedd. bywyd go iawn."

Yn ddiweddar, gwerthusodd CRESST, elusen sy'n darparu hyfforddiant cyfryngu cymheiriaid yn ysgolion Sheffield, eu rhaglen mewn ysgolion cynradd dros 5 mlynedd. O'r 543 o ddysgwyr a hyfforddwyd fel cyfryngwyr cymheiriaid dros y cyfnod hwnnw, dywedodd 89.9% fod yr hyfforddiant wedi gwneud gwahaniaeth iddynt yn bersonol. Dywedodd y staff fod gan y plant fwy o hyder a'u bod nhw'n fwy cyfrifol: "Mae'r plant sydd wedi gwneud yr hyfforddiant yn llawer mwy hyderus, nid yn unig ynddyn nhw eu hunain ond yn eu gallu i newid pethau, i wneud i bethau ddigwydd." Dangosodd dadansoddiad o'r ymatebion fod yr hyfforddiant wedi cael yr ymatebion uchaf gan gyfranogwyr mewn ardaloedd difreintiedig.